DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Practis Deintyddol Parkside – Caerdydd

Dyddiad Arolygu: 7 Chwefror 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-9080-2


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Cyd-destun ........ 3
3. Crynodeb ........ 4
4. Canfyddiadau ........ 5
   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 5
   - Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 7
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 13
5. Y Camau Nesaf ........ 15
6. Methodoleg ........ 16
   - Atodiad A ........ 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Parkside, 170 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9JD, ar 7 Chwefror 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Parkside yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Parkside yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat i gleifion yn ardal Caerdydd.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs ddeintyddol, un hylenydd, un derbynnydd a rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat, gan gynnwys deintyddiaeth gyffredinol a thriniaethau cosmetig, gan gynnwys gwynnu dannedd.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Parkside yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal sganiau pelydr-X yn ddiogel.
- Roedd archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal.
- Roedd yr amgylchedd yn cynnig digon o gyfleusterau clinigol a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn gyson a chynnwys dyddiadau cyhoeddi ac adolygu.
- Mae angen i archwiliadau rheoli heintiau gyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.
- Mae angen cael cofnodion imiwneiddio, Hepatitis B yn benodol, ar gyfer yr holl ddeintyddion a'u cadw mewn ffeil.
- Mae angen arwyddion ar gyfer yr ystafell ddadheintio i nodi mannau glân a budr ac mae angen arwyddion man a reolir ar gyfer yr ystafelloedd lle y cynhelir profion pelydr-X.

Yn dilyn ein canfyddiadau mewn perthynas ag imiwneiddio staff, cyflwynodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis saith diwrnod i ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol i AGIC ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd, neu a gynlluniwyd, er mwyn mynd i'r afael â'r materion a ddisgrifiwyd. Mae'r practis bellach wedi cyflwyno ymateb i AGIC, yr oedd ei gynnwys yn rhoi sicrwydd digonol inni fod camau prydlon a phriodol wedi eu cymryd.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion ac roedd adborth gan gleifion yn cadarnhau hyn. Roedd gan y practis systemau ar waith ar gyfer casglu adborth gan gleifion ac roedd y rhain yn cael eu defnyddio i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, estynnwyd gwahoddiad i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cwblhawyd a dychwelwyd 20 holiadur atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth ardderchog, cyfeillgar a phroffesiynol bob amser"*

> *"Rwyf wedi argymell y deintydd hwn i'm ffrindiau"*

> *"Fyddwn i ddim yn mynd i unman arall. Mae'r staff a'r deintydd yn fendigedig"*

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn derbyn gofal gydag urddas a pharch. Gwnaethom ganfod bod lle er mwyn i staff gael trafodaethau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd o gleifion eraill, os oes angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis.

**<u>Gofal amserol</u>**

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi profi oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Dywedodd staff wrthym fod rhif ffôn cyswllt ar gyfer argyfwng ar beiriant ateb y practis. Gwelsom hefyd fod rhif ffôn cyswllt y practis yn cael ei arddangos ar arwydd y tu allan i'r practis, ger y fynedfa.

## Gofal unigol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd llyfr 'gwybodaeth i gleifion' ar gael yn y dderbynfa a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol y gallai fod ar glaf ei hangen ynglŷn â'r gwasanaeth, gan gynnwys manylion cyswllt, oriau agor, gofal brys, a sut i leisio pryderon/cwynion am eu gofal deintyddol.

Roedd gwahanol wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos yn y man aros, gan gynnwys gwybodaeth am hybu iechyd deintyddol, taflenni am driniaethau ac atal clefydau, gwybodaeth am wneud cwynion, a rhestr brisiau ar gyfer triniaethau. Dylai'r practis ystyried ychwanegu ystod prisiau uchel/uchaf at y rhestr brisiau fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (Safon 2.4).

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y dogfennau'n cynnwys manylion cyswllt sefydliadau allanol a allai gynorthwyo cleifion gyda'u pryderon pe na bai'r rheiny yn cael eu datrys yn lleol, gan gynnwys manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Roedd systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion a/neu sylwadau a dderbyniwyd gan y practis. Er enghraifft, roedd gan y practis lyfrau penodol ar gyfer cofnodi cwynion/sylwadau a byddai'r cofnodion yn cael eu cynnwys hefyd yn nodiadau cleifion os oedd angen, fel ffordd o leihau'r risg o bryderon pellach.

Roedd gwybodaeth ar wefan y practis ynglŷn â sut y gallai cleifion roi adborth/safbwyntiau. Yn ogystal, roedd arolygon cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd gan y practis a gan ddarparwr taliadau deintyddol allanol. Gwelsom dystiolaeth o ganlyniadau arolygon diweddar a dywedodd staff wrthym sut roedd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth a phrofiad y claf yn barhaus.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a gwelsom nifer o gofnodion o'r cyfarfodydd hynny. Yn ogystal, dywedodd y staff wrthym y cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol rhwng aelodau'r tîm deintyddol bob dydd i sicrhau bod unrhyw negeseuon perthnasol yn cael eu cyfathrebu. Roedd y math hwn o gyfathrebu'n gweithio'n dda a chadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw.

Roedd y dderbynfa a'r man aros ar ffurf cynllun agored, ond roedd lle ar gael yn y practis er mwyn cynnal sgyrsiau a galwadau ffôn preifat. Roedd y lle ar wahân hwn yn sicrhau bod preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gofyn am wybodaeth gan

gleifion bob amser yn ystod sgyrsiau dros y ffôn, yn hytrach na datgan gwybodaeth bersonol, er mwyn sicrhau bod preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu cynnal.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hatal sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem hefyd yn fodlon bod yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.**

**Gwnaethom argymhellion y dylid defnyddio canllawiau Cymru, Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn benodol, ar gyfer archwiliadau dadheintio. Roedd angen cael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thystysgrifau cymorth cyntaf y staff i ddangos cydymffurfiad â'r rheoliadau ac roedd angen cofnodi manylion sgrinio ar gyfer canser y geg yn glir ar gofnodion cleifion.**

### Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion a chanfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn rhydd rhag annibendod.

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel.

Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Roedd yn amlwg bod adeilad y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd yr holl fannau o fewn y practis yn lân ac yn daclus. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom nad oedd bin glanweithiol yn nhoiled y staff. Gwnaethom argymell y dylid darparu bin glanweithiol at ddefnydd y staff.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd llyfr damweiniau ar waith ond nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd angen ychwanegu'r manylion hynny.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cynnwys manylion cyswllt yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn y llyfr damweiniau.***

*Rheoli heintiau*

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a adwaenir hefyd fel dadheintio). Dangosodd ein harsylwadau fod y broses hon yn foddhaol. Roedd enghreifftiau cadarnhaol yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc benodol i olchi dwylo.
- Roedd llyfrau cofnodion wedi cael eu cadw ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio, gan gynnwys profi dyddiol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, ond roedd y dull archwilio'n cyfeirio at ganllawiau HTM 01-05, sef canllawiau Lloegr. Gwnaethom gynghori'r staff bod angen defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[1] ar gyfer gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r holl weithgareddau a dogfennau dadheintio gyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Argymhellwyd y dylai'r practis ddangos y mannau glân a budr yn yr ystafell ddadheintio er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng a chyfarpar dadebru*

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau (cleifion), ac roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd.

Gwelwyd bod y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng a gedwir yn y practis yn cael eu storio fel bod gan staff fynediad rhwydd atynt. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio a newid cyffuriau a chwistrelli yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).[2]

Roedd aelod penodol o staff yn gyfrifol am gymorth cyntaf yn y practis. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried hyfforddi aelod ychwanegol o staff mewn cymorth cyntaf i sicrhau bod rhywun yn gyfrifol amdano bob amser. Yn ystod yr ymweliad, nid oedd y dystysgrif cymorth cyntaf (i gadarnhau bod yr hyfforddiant yn ddilys) ar gael. Mae angen cael y dystysgrif cymorth cyntaf a chadw cofnod mewn ffeil yn yr adeilad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cael tystysgrifau cymorth cyntaf ac mae angen cadw cofnod ohonynt mewn ffeil i ddangos bod hyfforddiant yn ddilys.***

*Diogelu*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gan y practis bolisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac roedd staff wedi cwblhau hyfforddiant yn y ddau faes.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a gyflenwir i gleifion. Dywedodd y practis wrthym fod gwiriadau cyn cyflogi unrhyw aelodau newydd o'r staff yn cael eu cynnal cyn

---

[2] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

iddynt ymuno â'r practis. Roedd tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y staff. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, nid oedd un dystysgrif ar gael (a dywedwyd wrthym ei bod ar goll). Mae angen cael copi o'r dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd felly a gwnaethom argymell bod y practis yn rhoi sylw i'r mater hwn ar unwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygiad o'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff i sicrhau bod gan bob aelod o staff dystysgrif ddilys.***

*Offer radiograffeg*

Roedd gan y practis gyfarpar pelydr-X digidol, ac roedd y trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn gyson â safonau a rheoliadau presennol. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod yr holl staff a oedd yn ymwneud â thynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Roedd hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom sylwi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyflawn ac yn cael ei chynnal fel sy'n ofynnol, gan gynnwys y llythyr hysbysu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cydnabod bod profion pelydr-X yn cael eu cynnal yn y practis. Ar adeg ein harolygiad, gwnaethom sylwi nad oedd polisi amddiffyn rhag ymbelydredd ar waith yn y practis a gwnaethom argymell y dylid rhoi un ar waith. Yn dilyn ein hymweliad, cawsom ein hysbysu gan y practis fod eu polisi mewn ffeil o'r enw 'datganiad practis'. Felly mae'n hanfodol bod yr holl staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r polisi ac o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag ef.

Nid oeddem yn gallu dod o hyd i gynllun o ystafell driniaeth dau yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a fyddai'n nodi'r man/mannau a reolir yn yr ystafell driniaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

---

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

***Mae angen diweddaru'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gyda chynllun ar gyfer ystafell driniaeth dau sy'n dangos mannau a reolir.***

Roedd gan y practis system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delweddau pelydr-X cleifion yn cael ei raddio a'i gofnodi. Byddai hyn yn amlygu problemau posibl â'r broses o dynnu delweddau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau, pe bai angen, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am ofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cefnogi gan sganiau pelydr-X da a chlir.

Gwnaethom argymell y dylai'r practis osod arwyddion ar ddrysau mannau a reolir ar gyfer ymbelydredd er mwyn rheoli mynediad at yr ystafelloedd hyn yn ystod triniaethau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen arwyddion ar y drysau ym mhob man a reolir ar gyfer ymbelydredd yn y practis i atal mynediad pan fydd profion pelydr-X yn cael eu cynnal.***

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o bump o gofnodion cleifion y practis. Ar y cyfan, canfuom fod safon cadw cofnodion yn uchel, a bod y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth ddigon manwl am driniaeth pob claf.

Yn seiliedig ar y cofnodion a adolygwyd gennym, gwnaethom argymell bod angen dangos tystiolaeth glir yng nghofnodion cleifion bod profion sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael eu cyflawni. Er gwaethaf tystiolaeth bod profion yn cael eu cynnal, nid oedd rhai nodiadau'n benodol wrth nodi bod sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei esbonio a'i gofnodi.

Cadarnhaodd trafodaethau â staff y byddai'r system cofnodion staff yn cael ei diweddaru i ddangos bod cydsyniad cleifion wedi cael ei sicrhau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i gofnodion cleifion ddangos tystiolaeth bod prawf sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei gynnal a'i esbonio i'r claf.***

## Gofal effeithiol

Roedd cleifion yn elwa ar dderbyn gofal gan bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, gwastraff clinigol ac archwiliadau radiograffeg, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain.

Nid oedd trefniadau ffurfiol i'r staff yn y practis gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd, ond dywedodd staff wrthym fod y practis wedi ennill achrediad Excel.  Roedd yr achrediad hwn, a ddyfernir gan gorff allanol, yn dangos bod y practis yn gymwys wrth gyflawni safonau uchel a gofal o ansawdd.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn hapus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond gwnaethom argymell bod y rhain yn cael eu diweddaru i sicrhau bod y sefydliadau, rheoliadau a safonau cywir yn cael eu rhestru.**

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda a'i gefnogi gan amrediad o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn brydlon. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau'r tîm deintyddol.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu (er mwyn cysondeb ac eglurdeb), yn ogystal â llofnodion y staff yn cadarnhau eu bod wedi darllen y dogfennau a'u deall.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, yn ogystal â llofnodion staff i gadarnhau eu bod wedi darllen y dogfennau a'u deall.***

Wrth adolygu'r polisïau, gwnaethom sylwi bod rhai ohonynt yn cynnwys cyfeiriadau at reoliadau, safonau a sefydliadau sy'n berthnasol i Loegr ac mae angen diweddaru'r rhain fel eu bod yn adlewyrchu canllawiau sy'n berthnasol i Gymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn briodol a pherthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau bod rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol.***

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus yn gwneud eu swyddi a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r hyfforddiant yr oedd eu hangen arnynt. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant sefydlu, a'u bod yn cael eu gwneud yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau.

Roedd system ar waith i staff gael arfarniad blynyddol, a oedd yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar eu gwaith a nodi unrhyw hyfforddiant perthnasol y gallent fod ei angen.  Roedd angen arfarniad cyfredol ar rai aelodau o staff gan fod blwyddyn wedi mynd heibio ers eu harfarniad diwethaf. Roedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a oedd yn cael eu cofnodi, gan ddangos tystiolaeth o'r trafodaethau.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B yr holl nyrsys deintyddol sy'n gweithio yn y practis.  Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion ar gael ar gyfer y deintyddion, er gwaethaf cadarnhad ar lafar eu bod wedi derbyn yr holl frechiadau angenrheidiol.  Gwnaethom argymell y dylid cael cofnodion o'r fath i ddangos tystiolaeth o statws imiwneiddio'r staff dan sylw i sicrhau/dangos bod system ar waith yn y practis i amddiffyn cleifion a staff rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, cyflwynodd AGIC lythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y practis wedi rhoi ymateb i AGIC a oedd yn rhoi sicrwydd i ni fod y camau gweithredu a gymerwyd gan y practis yn ddigonol.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd yr holl ddeintyddion sy'n darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru ag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn amlwg yn y practis, yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Parkside yn derbyn sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredwyd rheoliadau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Parkside

## Dyddiad yr Arolygiad: 7 Chwefror 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | ***Amherthnasol*** | | - | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 7 | ***Mae angen cynnwys manylion cyswllt yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn y llyfr damweiniau.*** | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.4 | Cwblhawyd – Mae manylion cyswllt yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael eu hychwanegu at y llyfr damweiniau. | Kayleigh Webster | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | ***Mae angen i'r holl weithgareddau a dogfennau dadheintio gyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.*** | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Cwblhawyd – Mae arwyddion yn dangos mannau glân a budr yn cael eu harddangos yn yr ystafell ddadheintio. | Kayleigh Webster | Cwblhawyd |
| 9 | ***Mae angen cael tystysgrifau cymorth cyntaf ac mae angen cadw cofnod ohonynt mewn ffeil i ddangos bod hyfforddiant yn ddilys.*** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru<br>14 (2) | Mae cwrs cymorth cyntaf wedi cael ei drefnu ar gyfer y tîm. | Kayleigh Webster | 31/05/2017 |
| 10 | ***Mae angen adolygiad o'r gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff i sicrhau bod gan bob aelod o staff dystysgrif ddilys.*** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru<br>13 (3) (C) Atodlen 2, pwynt 2 | Cwblhawyd – mae'r gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd ar goll ar gyfer un aelod o staff wedi ei gael ac mae yn y ffeil. | Kayleigh Webster | Cwblhawyd |
| 10 | ***Mae angen diweddaru'r ffeil*** | Rheoliadau Ymbelydredd | Cwblhawyd – Mae'r cynlluniau newydd ar | Owen Jones | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***amddiffyn rhag ymbelydredd gyda chynllun ar gyfer ystafell driniaeth dau sy'n dangos y mannau a reolir.*** | Ïoneiddio 1999<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (diwygiwyd 2006) (RhYÏ(DM) | gyfer ystafell driniaeth 2 wedi cael eu creu. | | |
| 11 | ***Mae angen arwyddion ar y drysau ym mhob man a reolir ar gyfer ymbelydredd yn y practis i atal mynediad pan fydd profion pelydr-X yn cael eu cynnal.*** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 14 (1) (b) (d)<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 1.5 | Cwblhawyd – Mae arwyddion radiograffeg yn cael eu harddangos y tu allan i bob ystafell lle mae profion pelydr-X yn cael eu cynnal. | Owen Jones | Cwblhawyd |
| 11 | ***Mae angen i gofnodion cleifion ddangos tystiolaeth bod prawf sgrinio ar gyfer canser y geg wedi cael ei gynnal a'i esbonio i'r claf.*** | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>4.1 | Cwblhawyd – Ychwanegwyd blwch atgoffa at y nodiadau electronig. | Owen Jones | Cwblhawyd |

| Ansawdd Rheolaeth ac |
|---|

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | ***Mae angen i'r practis adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, yn ogystal â llofnodion staff i gadarnhau eu bod wedi darllen y dogfennau a'u deall.*** | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br>6.6.8<br>6.6.9 | Mae gan bob polisi ddyddiad adolygu a dyddiad cyhoeddi. Mae'r staff bellach wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen yr holl bolisïau a'u bod wedi eu deall. | Kayleigh Webster | Cwblhawyd |
| 12 | ***Mae'n rhaid i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn briodol a pherthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau bod rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru'n cael eu hadlewyrchu'n ddigonol.*** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru, paragraff 14<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.9<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Mae'r holl bolisïau wedi cael eu hadolygu ac rydym o'r farn eu bod yn addas ar gyfer Cymru. | Kayleigh Webster | Cwblhawyd |
| Ddim yn berthnasol | ***Rhaid cael cofnodion imiwneiddio, ar gyfer Hepatitis B yn benodol, ar*** | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2 | Arweiniodd y mater hwn at gyflwyno llythyr sicrwydd ar | Kayleigh Webster | Cwblhawyd – Rydym yn aros am gadarnhad |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ***gyfer yr holl staff clinigol i sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu gwarchod rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.*** | | unwaith gan AGIC. Ers hynny, rydym wedi derbyn sicrwydd digonol o'r camau gweithredu a gymerwyd gan y practis yn hyn o beth. | | ysgrifenedig gan Dr Adams yn y gwasanaeth iechyd galwedigaethol. |

**Cynrychiolydd y Practis:** **Kayleigh Webster**

**Enw (llythrennau bras):** **Kayleigh Webster**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **10/03/2017**